**CABINET Y CYNGOR**
**COFNODION**
**Gorffennaf 1af 2014**

**Yn bresennol** – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr – Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, R H Wyn Williams, W Gareth Roberts, John Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol** – Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).
Ar gyfer Eitem 8: Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Rhoslyn Prys (Rheolwr Gwireddu Plant a Phobl Ifanc)

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd aelodau Cabinet, swyddogion ac aelodau'r Wasg i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Gareth Roberts fuddiant personol yn eitem rhif 6 oherwydd bod ei ferch wedi dechrau gweithio gyda'r Cyngor yn ddiweddar. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr Eitem.

Datganodd y Cynghorydd Gareth Thomas fuddiant personol yn eitem rhif 6 oherwydd bod ei fab yng nghyfraith yn gweithio i'r Cyngor. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr Eitem.

Datganodd y swyddogion Alwyn Evans Jones, Rhun ap Gareth, Dafydd Edwards a Rhian Tomos fuddiant personol yn eitem 6 oherwydd eu bod yn gyflogedig gan y Cyngor ond oherwydd bod eu presenoldeb yn hanfodol yng nghyfarfod y Cabinet, ni adawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr Eitem. Datganodd Morwena Edwards fuddiant yn yr eitem yn ogystal ac fe adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Mehefin 10fed 2014.

## 6. CYNLLUN IAWNDAL DISWYDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

Diwygio Cynllun Iawndal Diswyddo'r Cyngor i uchafswm o 45 wythnos a 30 wythnos i'r rhai sy'n 55 oed a throsodd ac sy'n cael rhyddhau eu pensiwn. Yn weithredol o'r 1af o Dachwedd 2014.

## 7. CYMORTH TUAG AT DRETH CYNGOR I BENSIYNWYR 2014/15

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

Dosrannu'r gyllideb £150,000 i gynorthwyo pensiynwyr cymwys i dalu Treth Cyngor yn 2014/15, trwy leihau'r swm o dreth taladwy (cwtogiad hyd at £95) i'r unigolion sydd ar 1 Gorffennaf 2014 –

- yn 60 oed neu fwy ac yn derbyn pensiwn gwladol,
- yn gyfrifol am dreth cyngor sydd â wnelo â'u hunig neu brif gartref, ac
- yn derbyn gostyngiad rhannol (ar sail incwm) tuag at gyfrifoldeb treth cyngor blynyddol, ond ddim gostyngiad llawn (h.y. yn talu elfen o'r dreth).

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Paul Thomas, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc.

**PENDERFYNIAD:**

- Derbyn adroddiad yn amlinellu gwaith y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer datblygu rhaglen waith a strategaeth tair blynedd.

## 9. BLAENRAGLEN CABINET CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd y blaenraglen gan yr Arweinydd.

**PENDERFYNIAD:**

Cymeradwyo blaenraglen Cabinet Cyngor Gwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2 o'r gloch.

____________________

**CADEIRYDD**